

## Datganid i'r Wasg

Alan Knight – O'r Cae, Y Fferm a'r Môr

**ORIEL YNYS MÔN**

**11.03.17 – 23.04.17**



Bydd Oriel Ynys Môn yn lansio arddangosfa unigol sylweddol gan yr arlunydd Alan Knight ddydd Sadwrn 11 Mawrth.

Ganwyd Alan yn Swinton, Salford ym 1947 a cherddoriaeth a chelf oedd yn mynd â'i fryd o'r dechrau. Yn niwedd y 1960au ffurfiodd fand comedi acwstig a ddaeth yn adnabyddus fel 'The Brownsville Jug Band'. Ym 1969 fe adawodd holl aelodau'r band eu swyddi arferol er mwyn bod yn gerddorion proffesiynol ac er mwyn agor clwb gwerin poblogaidd yng nghanol Manceinion. Jasper Carrot oedd eu hasiant yn y 1970au a threfnodd sawl gig iddynt gydag artistiaid amrywiol yn cynnwys Billy Fury, Spike Milligan, John Cooper Clarke, Ewan MacColl, Peggy Seeger a'r Troggs.

Erbyn 1979, roedd Alan wedi dechrau ymddiddori mwy mewn paentio a mynychodd Gwrs Celf ym Mhrifysgol Salford. Olew yw'r dull mae wedi'i ffafrio i baentio erioed ac yn debyg i Kyffin Williams mae'n rhoi haen dew o baent ar y gynfas gyda chyllell balet.

Yn 2003, ymunodd ag Artistiaid Vernon Mill yn Stockport, cydweithfa o tua hanner cant neu fwy o artistiaid. Yn dilyn hyn, cafodd nifer o arddangosfeydd unigol llwyddiannus ac mae ei waith wedi ymddangos mewn nifer o gyhoeddiadau gan gynnwys The Artist Magazine, Cheshire Life, The Edge a'r Landscape Magazine.

Cafodd ei stiwdio ei dangos ar y rhaglen deledu Inside Out, a oedd yn dangos gwaith arlunwyr o'r melinau yn y Gogledd Orllewin. Fe ymddangosodd hefyd ar gyfres gyntaf *Show me the Monet* lle'r oedd gwaith arlunwyr yn cael ei graffu arno gan dri beirniad o Lundain.

Symudodd Alan a'i wraig i Ynys Môn yn 2014 ar ôl iddynt ymweld â'r ardal ar wyliau nifer o weithiau. Nododd "Rydw i wedi bod yn arlunydd tirlun erioed ac mae Ynys Môn â mwy na digon o ddeunydd i mi gyda'r arfordir amrywiol a'r tir poblog â ffermydd a phentrefi sydd wedi'u gwasgaru ar hyd yr Ynys. Pan ymwelais ag Oriol Ynys Môn i ddechrau, roedd wedi creu argraff dda arnaf, yn enwedig Galeri Kyffin Williams. Rydw i'n hynod o falch i gael arddangosfa fel hon yn y Brif Oriol gyda 50 o luniau newydd o Ynys Môn."

Mae Oriol Ynys Môn ar agor rhwng 10.30am a 5.00pm bob dydd ac mae mynediad am ddim. Am fwy o wybodaeth ffoniwch 01248 724444 neu anfonwch neges at [www.orielynysmon.info](http://www.orielynysmon.info)

## DIWEDD

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Nicola Gibson, Rheolwr Profiad Ymwelwyr  
01248 752014 / [NicolaGibson@ynysmon.gov.uk](mailto:NicolaGibson@ynysmon.gov.uk)